Sut i wneud Busnes â

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Canllaw i

Gontractwyr a Chyflenwyr Cyfredol a Photensial



South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Codi Ymwybyddiaeth - Lleihau Perygl

1. CYFLWYNIAD

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn prynu gwasanaethau a cyflenwadau gwaith sy'n amrywio yn eu gwerth o sawl cant o bunnau i sawl cant o filoedd. Mae hyn yn cynnig ystod eang o gyfleoedd masnachol i gwmnïau o bob maint.

Gallai eich cwmni elwa o'r cyfleoedd hyn.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymrwymedig i ddarparu'r wybodaeth orau posibl am y cyfleoedd sydd ar gael ac am y weithdrefn sydd raid ei dilyn.

Nod y canllaw hwn yw rhoi gwybodaeth a chymorth i'r contractwyr, yr ymgynghorwyr a'r cyflenwyr sydd gennym yn barod, a'r rhai posibl, i geisio am gontractau'r Gwasanaeth. Mae'r tudalennau canlynol yn esbonio pa ddeddfwriaeth sy'n dylanwadu ar ofynion tendro'r Gwasanaeth ac yn disgrifio'r dull o weithredu sy'n angenrheidiol wrth gynnig am waith drwy:

- Amlinellu'r rheolau sydd rhaid i'r Gwasanaeth eu cadw
- Manylu am y dulliau o roi gwybod i gwmnïau am y cyfleoedd i gyflenwi'r Gwasanaeth
- Esbonio sut i wneud cais am waith y Gwasanaeth

2. BETH YW'R MANTEISION O GYD-WEITHIO Â GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n deg, nid yw'n dangos ffafriaeth, mae'n broffesiynol ac yn eglur.

Ffurfiwyd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym 1996 o ganlyniad i ad-drefnu'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Ar hyn o bryd telir oddeutu 95% o'r anfonebau diamheuol cyn pen 30 diwrnod.

Dylai'r canllaw hwn ddarparu digon o wybodaeth fel y gall cwmnïau benderfynu p'un a ydynt am gyflwyno cynnig neu beidio. Fodd bynnag, dylid nodi bod yna gystadleuaeth gref am gontractau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac na all y canllaw hwn sicrhau llwyddiant i gwmnïau unigol.

Mae hyn yn rhan o agwedd newydd a brwdfrydig tuag at gaffael yn y Gwasanaeth Tân ac Achub â'r nod o safoni'r Dulliau Caffael, gan wneud cyfleoedd yn weladwy a sicrhau eglurder yn ei brosesau.

3. STRWYTHUR A CHONTRACTAU GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Yn ddiweddar ffurfiwyd strwythur Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar ôl adolygiad helaeth i'w drefniadaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth roeddent yn ei gynnig i'r cyhoedd a'r rhan-ddeiliaid cysylltiol.

Ar lefel uchaf y Gwasanaeth mae yna chwe Chyfarwyddwr Strategol sy'n ymuno â'r Prif Swyddog Tân i ffurfio'r Bwrdd Dilyniant Corfforaethol. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am oruchwylio grŵp o wasanaethau a gweithredu strategaethau a blaenoriaethau corfforaethol. Mae Uwch Swyddogion sy'n gyfrifol am redeg gwasanaethau unigol o ddydd i ddydd yn rhoi adroddiadau i'r Cyfarwyddwyr.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gofalu am ardal oddeutu 1085 o filltiroedd sgwâr (300,000 hectar) gan wasanaethu poblogaeth o ychydig dros 1.4 miliwn. Mae ardal De Cymru sy'n derbyn ei wasanaeth gydag un o'r mwyaf ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol. Cefnogir Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan 50 o orsafoedd, nifer o leoliadau eraill a chyflogir 1700 o bersonél i gynnal ein gwasanaethau, yn eu plith Ymladdwyr Tân Amser Llawn ac Ymladdwyr Tân ar y System Ddyletswydd Ran Amser, swyddogion â gwisg a staff cefnogol di-wisg.

Ymgymerir â'r gwaith caffael gan Swyddog Caffael sydd wedi ei leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân. Mae swyddogion unigol fel Peiriannydd y Frigâd (cerbydau), Swyddog TGCh a'r Swyddog Datblygu Adeiladau hefyd ynghlwm wrth y broses caffael.

Ymdrinnir ag amrywiaeth o gontractau gan y Gwasanaeth, o bryniant unwaith yn unig i gontractau am gyflenwadau, gwasanaethau neu waith dros gyfnod penodol cyn bod angen eu hadnewyddu. Mae caffael effeithiol yn cefnogi nod y Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gwerth yr arian, a chynaliadwy ar gyfer pobl De Cymru heddiw ac i'r dyfodol.

Nid yw'n holl anghenion yn cael eu bodloni gan brynu'n uniongyrchol ein hunain. Rydym hefyd yn gwneud defnydd o gytundebau ar y cyd â gwasanaethau brys a sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Cewch fanylion am rai o'r contractau hyn drwy gofrestru ar wefan Gwerth Cymru -www.sell2wales.co.uk

4. SUT I DDOD O HYD I'R CYFLEOEDD A GYNIGIR GAN WASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Dengys Gwefan Gaffael Genedlaethol Cymru, www.sell2wales.co.uk gytundebau sector cyhoeddus o bob gwerth, sydd i'w dyfarnu. Rhaid prynu cytundebau nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n uwch na throthwy'r Undeb Ewropeaidd yn unol â Chyfarwyddebau Caffael yr Undeb Ewropeaidd ac fe'u hysbysebir yng Nghylchgrawn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Gellir gweld y rhain ar www.sell2wales.co.uk Gall cyflenwyr a chontractwyr gofrestru hefyd eu cwmnïau yn rhad ac am ddim ar wefan sell2wales fel y gallant dderbyn negeseuon e-bost â'r newyddion diweddaraf am gyfleoedd tendro wrth iddynt ymddangos.

Gellir hysbysebu cytundebau gwasanaethau brys ar wefan Blue Light Portal hefyd, a gefnogir gan y Bwrdd Caffael Cenedlaethol a Cymunedau a Llywodraeth Lleol. Mae mynediad i'r system yn rhad ac am ddim i gyflenwyr. Gall cyflenwyr gofrestru manylion eu cwmnïau ar wefan: www.bluelight.gov.uk

Lle'r hysbysebir contractau ac yr hoffai eich cwmni chi gael ei ystyried ar gyfer contact penodol rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau cais manwl yn yr hysbyseb.

5. MATHAU O GAFFAEL

Mae'r ffordd y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymdrin â phryniant yn dibynnu ar amcangyfrif o'r gwerth a'r gofynion cyfreithiol wrth ddyfarnu'r cyfryw gytundebau. Rhaid i'r Gwasanaeth fodloni ei Weithdrefn ar gyfer Cytundebau a'r Rheoliadau Ariannol fel y'u gosodwyd yn y Polisi Caffael.

Ceir drosodd siart lif sy'n dangos y dull o weithredu y mae'n rhaid i'r Uwch Swyddogion ei ddilyn wrth ystyried ceisiadau tendro. Rhaid i bob cytundeb nodi meini prawf y dyfarniad ar gyfer gwerthuso cost


Ydy gwerth y cytundeb yn debygol o fod yn fwy na throthwyon yr UE ar gyfer gwaith, nwyddau neu wasanaethau
NAC YDY
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Rheolau Sefydlog Cytundebau yn Berthnasol
YDY
Cyfarwyddyd Caffael yr UE yn bethnasol yn ogystal â Chyfarwyddebau Caffael yr Rheolau Sefydlog Cytundebau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ydy gwerth y cytundeb yn debygol o fod yn llai na £1,000
Nid oes angen dyfynbris
Ydy gwerth y cytundeb yn debygol o fod rhwng £2,500 a £10,000
O leiaf 3 Dyfynbris ysgrifenedig – gall hyn gynnwys ffacs neu ebost
Ydy gwerth y cytundeb yn debygol o fod rhwng £1,000 a £2,500
O leiaf 3 Dyfynbris dros y ffôn
Ydy gwerth y cytundeb yn debygol o fod dros £10,000
Tendro Swyddogol - dilyn Rheolau Sefydlog Cytundebau
Gweithdrefn Agored, Cyfyngedig neu drwy Drafodaeth - Dyfarnu drwy ddefnyddio meini prawf MEAT (MEAT - Most Economically Advantageous Tender)

6. TENDRO AM GYTUNDEBAU

Gwahoddir cwmnïau naill ai i gynnig tendr uniongyrchol drwy ddilyn y drefn 'agored' neu drwy lenwi holiadur cyn-gymhwyster cyn cynnig gwahoddiad i dendro drwy ddilyn y drefn 'gyfyngedig'. Diben holiadur cyn-gymhwyster yw asesu pa mor addas yw'r cynigydd posibl ar gyfer cyflenwi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'i allu i fodloni'r cytundeb cyn rhoi tendr. Mae'n arbed amser ac ymdrech i'r cynigydd rhag iddo dreulio amser dianghenraid yn llenwi dogfennau tendro llawn.

Ar ôl i chi gael eich derbyn i dendro am brosiect, anfonir dogfennau tendro atoch. Bydd y dogfennau tendro yn cynnwys y wybodaeth ganlynol fel rheol:-

- Llythyr gwahoddiad a chyfarwyddiadau
- Dogfen gostio a/neu ffurflen dendro
- Manyleb
- Rhestr prisio a/neu restr feintiau (os yw'n berthnasol)
- Cytundeb amodau neu amodau pryniant
- Gofynion datganiad dull (os yn berthnasol)
- Unrhyw wybodaeth gefnogol berthnasol

Bydd gofyn i chi lenwi a dychwelyd y dogfennau tendro erbyn amser a dyddiad penodol. Agorir pob dogfen dendro'r un pryd ar ôl y dyddiad dychwelyd tendrau. Wedi eu hagor, anfonir y dogfennau tendro ymlaen at y Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru priodol i'w gwerthuso. Ni fydd unrhyw ddogfen tendro na ddychwelir erbyn y terfyn amser penodedig yn cael ei chynnwys yn y broses gwerthuso.

Gwerthuso Tendrau a Dyfarnu Cytundeb

Bydd tendrau a ddychwelwyd yn cael eu gwerthuso yn ôl meini

prawf gosodedig fel a nodwyd yn y ddogfennaeth dendro. Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar sut bydd y cynigion tendro yn cyflwyno'r cytundeb ar sail cost ac ansawdd. Bydd y cydbwysedd rhwng cost ac ansawdd yn ddibynnol ar y maes gwasanaeth penodol. Bydd y Gwasanaeth yn dyfarnu'r cytundeb ar sail y tendr fydd o'r fantais economaidd fwyaf. Rhoddir gwybod i'r cyflenwr llwyddiannus drwy lythyr.

Adroddiad

Cewch wybod yn ysgrifenedig os nad ydych yn llwyddiannus. O fewn cyfyngiadau cyfrinachedd masnachol, bydd y Gwasanaeth bob amser yn ymdrechu i gynnig adborth i gynigwyr aflwyddiannus ar y rhesymau dros fethiant eu cynnig. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon yn gymorth mewn ceisiadau i'r dyfodol. Nid yw methu â chael un cytundeb yn golygu y byddai cwmni yn aflwyddiannus yn y dyfodol. Rhaid nodi bod yn rhaid i'r Gwasanaeth gydymffurfio â Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Perfformiad Cytundeb

Mae yna drefniadau mewn bodolaeth i fonitro perfformiad cwmnïau sy'n cynnal cytundebau ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Monitrir cwmnïau er mwyn asesu sut maent yn cydymffurfio â'r meini prawf perfformiad a ragddifiniwyd. Rhaid i'ch cwmni allu bodloni gofynion y cytundeb. Dylid bod yn ymwybodol bod Amodau'r Cytundeb yn cael eu gweithredu'n llym yn enwedig wrth ystyried ansawdd a pherfformiad cyffredinol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n gwneud ymdrech barhaus i wella ei berfformiad ei hun a disgwylir i'w gytundebwyr wneud yr un peth. Bydd y Gwasanaeth yn asesu o ddifrif sefyllfa unrhyw gontractwr sy'n methu perfformio i'r safon angenrheidiol.

Gofynnir i gontractwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru roi eu sylwadau ar unrhyw faterion perfformiad yr adroddir amdanynt. Dylid bod yn ymwybodol y bydd unrhyw enghreifftiau difrifol o berfformiad gwael yn debygol o ddiarddel y cwmni rhag cael ei ystyried am unrhyw fusnes yn y dyfodol. Nid yw'r Gwasanaeth yn gyfrifol am y canlyniadau a allai ddeillio o hyn i fusnes y cwmni.

Ymhlith enghreifftiau o berfformiadau gwael, ond nid yn gyfyngedig iddynt, mae:

- Safon annerbyniol o waith
- Diffyg goruchwyliaeth ar safle
- Methiant i gyflawni mewn pryd
- Rheolaeth annigonol ar isgontractwyr
- Arferion iechyd a diogelwch gwael

Amrywiadau

O bryd i'w gilydd efallai y bydd angen amrywiadau yn ystod cyfnod cytundeb. Fel rheol bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn rhoi cais am amrywiadau yn ysgrifenedig, ar wahân i achos brys, pan y rhoddir cyfarwyddiadau ar lafar gan eu dilyn yn ysgrifenedig.

7. GWYBODAETH AM EICH SEFYDLIAD Y BYDD EFALLAI YN RHAID I CHI EI ROI

Bydd y wybodaeth sydd ei angen ar Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n amrywio yn ôl gwerth y cytundeb. Nid oes angen ond ychydig o wybodaeth ar gyfer cytundebau isel eu gwerth, tra bydd angen gwybodaeth helaethach ar gyfer cytundebau a ddyfernir drwy dendro (>£10,000) gan gynnwys:

Ariannol

Gellir gofyn i gwmnïau am wybodaeth ariannol berthnasol i bob un o'r tair blynedd diwethaf. (Gall fod yn ddwy flynedd yn achos ambell i gytundeb) Rhaid i gwmnïâu cyfyngedig preifat a chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus gyflwyno cyfrifon sydd wedi eu harchwilio yn llawn yn unol â'r cofrestru gyda Thy'r Cwmnïau. Dylai ymgeiswyr eraill anfon copïau o adroddiadau ariannol, cynlluniau busnes neu adroddiad trosiant ardystiedig at Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Defnyddir y wybodaeth hon i asesu safle ariannol y cwmni mewn perthynas â maint y cytundeb. Mae angen gwybodaeth hefyd ar gyfer edrych i weld bod cwmni wedi'i gofrestru (os yw'n briodol) ar gyfer treth ac yn cydymffurfio â gofynion yswiriant y Gwasanaeth.

Os oes gan gwmni lai na 3 blynedd o wybodaeth ariannol, gellir eu hystyried er hyn, yn ôl natur y cytundeb.

Profiad a Gallu Technolegol

Mae unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisir ar gyfer asesu a ydy'r profiad perthnasol gan y cwmni a'r gallu technolegol i gynnal y categorïau gwaith ac i roi'r math a'r ansawdd o wasanaeth sydd eu hangen. Os yw'r cais ar gyfer cytundeb penodol, efallai y bydd yn angenrheidiol darparu geirda.

Gellir gofyn cwestiynau ychwanegol, sydd wedi eu teilwra ar gyfer anghenion y cytundeb unigol. Bydd yr ymatebion a'r dystiolaeth gefnogol yn cael eu defnyddio i asesu pun a oes gan gwmni'r lefel angenrheidiol o sgiliau a galluoedd i gyflawnhau tendro. Gallai hyn gynnwys achrediadau fel CORGI (Confederation of Registered Gas Installers), NICEIC (National Inspection Council for Electrical Installation Contracting).

Iechyd a Diogelwch

Yn ôl natur y nwyddau/gwasanaethau/gwaith, efallai bydd angen i sefydliadau gyflwyno copi o'u Polisi ar Iechyd a Diogelwch.

Pan fo gwasanaethau neu waith gwerth dros £10,000 bydd angen i gwmnïau gyflwyno gwybodaeth ar Iechyd a Diogelwch.

Sicrhau Ansawdd

Efallai y bydd angen i sefydliadau ddangos bod ganddynt drefn addas i sicrhau ansawdd addas ar gyfer rhai cytundebau gan gynnwys cytundebau gwaith. Gellir dangos hyn drwy gyflwyno ardystiad gan gwmni asesu cymeradwy neu drwy Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei hun yn adolygu'r cwmni ac yn derbyn llawlyfr ansawdd y sefydliad.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymrwymedig i gyfleoedd cyfartal, mynediad cyfartal a chanlyniadau cadarnhaol. Nod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw sicrhau bod

sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau ar ei ran yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyfleoedd cyfartal ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Hefyd, mae'r Gwasanaeth yn annog y sefydliadau a'r unigolion hynny sy'n gwneud busnes â nhw i gadw a glynu wrth yr egwyddorion hynny sy'n gynwysedig ym Mholisi Cyfleoedd Cyfartal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ceir copïau o'r polisi hwn ar ein gwefan:www.southwalesfire.gov.uk

Cynaladwyedd a Gofal Amgylcheddol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymrwymedig i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ac i hyrwyddo datblygiadau cynaladwy.

Disgwylir i gontractwyr y Gwasanaeth fodloni safonau tebyg o ofal ac ymrwymiad amgylcheddol.

Hefyd mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymrwymedig i'w Strategaeth Amgylcheddol ac i ddatblygu polisi caffael cynaliadwy.

Masnach Electronig a Chardiau Prynu

Ymrwymwyd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i weithredu e-Lywodraeth, sy'n anelu at gynyddu lefelau busnes electronig a fydd, gydag amser, yn cynnwys tendro, archebu ac anfonebu electronig. Y nod yw gwella effeithlonrwydd a gostwng costau sy'n gysylltiedig â'r Broses Caffael, i'r Gwasanaeth a'r cyflenwr fel ei gilydd. Cydnabyddir y gall e-fusnes fod o gymorth i gyflenwyr drwy gynnig eu cynnyrch a'u gwasanaethau i farchnad ehangach.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ystyried cyflwyno Cerdyn Prynu fel dull o dalu am ambell i beth. Gall cytundebau nodi bod angen i gyflenwyr fod yn gallu derbyn y Cerdyn Prynu.

8. DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2005

Rhydd y ddeddf hon yr hawl i bob unigolyn ofyn am wybodaeth oddi wrth sefydliad sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae yna rai eithriadau, er enghraifft cais am wybodaeth bersonol am weithiwr

9. CYDRADDOLDEB MEWN CAFFAEL

Rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ystyried ei weithgaredd caffael yng ngolau'r holl ddeddfwriaeth berthnasol: hil, anabledd, rhyw, iaith, tueddfryd rhywiol, crefydd, cred a hawliau dynol. Ein dyletswydd yw dileu unrhyw wahaniaethu annheg yn unol â deddfwriaeth sy'n cynnwys:

(a) Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000

(b) Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2004

(c) Deddf Cyflogau Cydradd 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975

(d) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

(e) Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogi (Tueddfryd Rhywiol) 2003

(f) Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogi (Crefydd a Chredo) 2003

(g) Deddf Hawliau Dynol 1996

(i) Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006

10. CYTUNDEBAU PRYNU

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chytundebau prynu cysyllter â'r Swyddogion canlynol:

Yvonne Edwards, Swyddog Cyflenwadau
Ffôn: 01443 232091 e-bost: y-edwards@southwales-fire.gov.uk

Peter Cate, Swyddog Datblygu Adeiladau
Ffôn: 01443 232097 e-bost: PL-Cate@southwales-fire.gov.uk

11. CYDNABYDDIAETH

Dymuna Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddiolch i Gynghorau Sir Gwynedd, Caerfyrddin a Phenfro am eu cydweithrediad a'r wybodaeth a roddwyd sy'n sail i'r llyfryn hwn.

NODIADAU